CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/02/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Wil Lake | Catrin Roberts | Gwynfor Jones |
| Gruffydd Willliams | Carys Roberts | Alaw Llewelyn Roberts (Cofnodi) | Arfon Hughes | Caren Jones |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhian Sanson, Rhys Llewelyn, Gareth Jones, Iwan Evans, Lleucu Jones a Pat Humphreys.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Gito Williams – Cais cynllunio C25/0007/42/LL.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 14/01/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Carys Roberts  Eilio: Gito Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Llythyr Geraint Jones Perchennog Siop Traeth Nefyn – diffyg biniau ger traeth Nefyn**
      Cafwyd cynnig i roi cefnogaeth iddo. Mae aelod lleol Nefyn yn mynegi bod hon yn broblem sy'n codi ei ben ers blynyddoedd, mae pryder bod y bins yn llenwi yn rhy gyflym a dyna pam nad ydy'r Cyngor wedi rhoi biniau eraill yno. Mae o eisoes wedi codi'r broblem llygod mawr hefo'r Cyngor felly ddim yn siwr beth mwy allith y cyngor wneud. Mynegwyd bod Geraint bellach wedi rentio'r lle allan i rhywun am 5 mlynedd. Cafwyd cynnig i ni weld os mae'r trefniadau sydd eisoes yn eu lle yn bodloni'r tenantiaid presenol a cynnig y dyliem ni ymateb i lythyr Geraint. Mae aelod arall wedi bod yn lygad dyst i unigolion yn gwagio eu ceir yn y biniau.
      Penderfyniad: CTN i drefnu cyfarfod hefo Geraint i drafod y sefyllfa a'r aelod lleol yn bresennol hefyd.
      Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gito Williams
   2. **Traen ddŵr drost y ffordd i'r Llong yn Edern –** Gito Williams
      Mae aelod lleol Nefyn yn cynnig cysylltu hefo Cyngor Gwynedd a gofyn wrthynt asesu'r safle, mae'n gofyn i rhywun ei atgoffa a cytunodd un o'r aelodau wneud hynny.
   3. **Bwriad i arallgyfeirio llwybr traeth Nefyn ger Morlais –** Gruffydd Williams
      Mae'r aelod lleol wedi clywed bod y llwybyr arfaethedig yn symud o'i leoliad gwreiddiol.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Penderfyniad: yr aelod lleol a'r clerc i wirio'r rheoliadau ac yna llunio llythyr a'i anfon ar ran CTN yn gwrthwynebu hyn.
Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Arfon Hughes

4. **Polisi Iaith Cyngor Cymuned Tudweiliog**
   Mae Cyngor Cymuned Tudweiliog wedi ysgrifennu at Cygnor Gwynedd i ofyn wrthynt roi amod iaith ar tai cymunedol.
   Penderfyniad: CTN i ysgrifennu at CG i gefnogi eu cais a gwneud ein cais ein hunain, hefyd ysgrifennu at Cyngor Cymuned Tudweiliog i'w hysbysu ein bod yn eu cefnogi.
   Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Carys Roberts

5. **Gwresogyddion Siop Siarad –** Diweddariad **-** Arfon Hughes
   Mae un o'r aelodau wedi dod a'i wresogydd ei hun i Siop Siarad heno ac mae'r gwahaniaeth i'w deimlo. Mae o wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer gwresogyddion tebyg ac yn gofyn i ni gysidro cael dau tebyg o gwmpas mis Medi, yn y flwyddyn ariannol newydd. Pris oddeutu £22-£50.
   Penderefyniad: ei roi ar agenda mis Gorffennaf.
   Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Mared Llywelyn Williams

6. **Anfonebau claddu –** Clerc
   Mae oedi mewn talu anfonebau claddu gan y trefnwyr angladdau, mae arian mawr sydd yn ddyledus i CTN allan ac mae anfonebau dyledus yn mynd yn ôl i mis Mai 2024. Mae anfonebau y torrwr beddi a anfonebau y contractwr torri mynwentydd yn cael eu talu yn syth gan CTN felly nid oes rheswm paham bod oedi gan y trefnwyr angladdau. Mae Rheoliau Mynwentydd y Cynghorau Cymuned a Thref yn datgan bod rhaid derbyn tâl o flaen llaw ond nid yw hyn yn cael ei orfodi, fe ddylai'r ymgymerwyd gael eu hatgoffa o hyn.
   Penderfyniad: rhoi mis iddynt dalu'r anfonebau o hyn ymlaen a hynny i'w roi ar waelod pob anfoneb. Y clerc i anfon ebost iddynt i gyd yn eu hysbysu o hyn ac hefyd i ofyn am daliad am bob anfoneb sydd drost fis yn hwyr cyn gynted a phosibl.
   Cynnig; Arfon Hughes   Eilio: Gwynfor Jones

7. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
   1. **Llythyr Sian Gwenllian AS –** cefnogaeth i ymgyrch sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor
      Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi cais Sian Gwenllian AS yn y mater hwn.

8. **Ceisiadau Cynllunio**
   **C25/0026/42/DT** - Belle View Lôn Pen Rhos, Morfa Nefyn - gosod pwmp gwresogi aer ar ochor orllewinol yr eiddo.
   Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams   Eilio: Wil Lake

## COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cygnor, Nos Fawrth 11/02/2025 am 7yh

**C25/0007/42/LL** - Tu Mewn Ffordd Dewi Sant, Nefyn - Estyniad i greu fwy o le cadw ar adeilad arddangos ceginau ac ymolchfeydd bresennol.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Wil Lake
**C25/0017/42/TC -** Bwthyn Gwyn Lôn Penrallt, Nefyn - cais am dystysgrif defnydd cyfreithlon (bwriedig) ar gyfer gosod carafán o fewn cwrtil eiddo preswyl Bwthyn Gwyn ar gyfer defnydd preswyl achlysurol.
Penderfyniad: Pryder ymhlith cynghorwyr am holl ddatblygiadau ar y safle, yn enwedig o gysidro nad oes cais cynllunio wedi dod ger bron y Cyngor am y newidiadau sydd eisoes wedi eu gwneud. Cynnig gwneud cais am ragor o wybodaeth am y datblygiad yma.
**C24/0509/42/DT -** Brigadoon, 6 Stryd Y Plas, Nefyn - Installation of a free-standing Riello 14KW heat pump.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts
**C24/0687/42/LL -** Plot Borthwen Lôn Rhos, Edern - Cais llawn i adeiladu 6 tŷ preswyl (dosbarth defnydd C3) gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys mynedfa, parcio a thirlunio.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Alaw Llewelyn Roberts
**C24/1020/42/LL -** Cae'r Odyn Caravan Park Lôn Llan, Edern - Ail-leoli dwy garafan sefydlog o fewn maes carafanau sefydlog presennol ynghyd a gwelliannau amgylcheddol.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Catrin Roberts

9. **Ceisiadau Diweddarach**
   Dim.

10. **Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1407.78 (taliad Bacs)
- Gwasanaeth Coed Llŷn – torri brigyn mawr oddi ar y goeden sydd wrth ymyl y Llyfrgell yn dilyn y storm - £240.00
- Bacstal Pac – gwasanaeth cyflogau - £165.60
- A R Jones Electrical Ltd – gosod a tynnu'r goleuadau nadolig ar y dair goeden - £250.00
- Tyddyn Sachau – blodau Nefyn, Morfa ac Edern - £215.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £21.53
- Taliad y Cadeirydd – taliad rhif 3 - £300.00
- HMRC - PAYE Mis 10 - £419.98
- D M Parry – Trydydd taliad mynwent Nefyn - £990.00
- Alan Adams – taliad 10 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1440.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/02/2025 am 7yh

- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Ionawr - £176.08
- John Gwynfor Jones – agor bedd Janos Rakovics a Robert Ifor Jones - £1100.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Wil Lake

**11. Taliadau wedi eu derbyn**

- Tŷ Cod – coeden nadolig Morfa - £15.00
- Henry Jones Cyf – angladd Enid Rees Roberts - £1550.00
- Cyngor Gwynedd – ad-daliad llwybrau cyhoeddus - £2757.62

System blaenoriaeth Pont Edern
Mae cais i'r clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn pa bryd y bydd y marciau ar y ffordd yn cael eu ychwanegu ac i basio cwyn ymlaen gan berson sy'n byw yn lleol am faint yr arwydd presennol.

Mater i'w roi ar agenda mis neasf
Postiadau sy'n defnyddio Saesneg yn gyntaf ar eu platfformau cyfryngau cymdeithasol.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com